Cyngor Cymuned Cerrig y Drudion
Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12fed o Fedi 2023 am 7.30

Cafwyd ymddiheuriadau gan Llio Morris.
Presennol Guto Jones, Einion Edwards, Menai Hughes, Maria Roberts, Ffuon Williams, John Jones, Prys Ellis a cyngh Gwennol Ellis.
Datgan diddordeb Daeth cais cynllunio gan Owain Roberts i ddymchwel y Caffi presennol a chreu unedau i fusnesai mynegodd ei bod ddim yn cymeryd rhan yn y drafodaeth.
Gohebiaeth
[1] Cylch Meithrin Cerrig y Drudion cafwyd llythyr yn gofyn am gyfraniad i brynnu cadeiriau pwrpasol ir cylch, cost i brynnu un cadair yw odeutu £135 - £145, pasiwyd i gyfrannu tuag at un gan bod Cyngor Bro Llanfihangel yn cyfrannu at y llall.
[1.1] Trystan Humphryes – cafwyd llythyr o ymddiswyddiad gan Trystan Humphreys, anfonwyd hwnnw ir Cyngor Sir Conwy, lle rhoddwyd hysbyseb wedyn ar wefan a hysbysfwrdd yn Cyngor Cymuned yng Ngherrig y Drudion ond nid daeth neb ymlaen i ymgeisio am y sedd. Felly y broses nawr yw I enwebu rhywun daeth enwau ymlaen y clerc i gysylltu efo nhw.
[1.2] Cronfa Cymunedol Dwr Cymru - y clerc wedi gwneud cais am gael potiau blodau ir gymuned.
[1.3] Huw Davies cafwyd llythyr yn egluro bod ei deulu wedi prynnu dwy fedd yn y fynwent ac mae n ymddangos nawr mai dim ond un fydd ei angen felly ei ddymuniad yw i roi y llall yn ol iw cael iw gwerthu (bed rhif 114) y clerc i ysgrifennu yn ol i ddiolch am ei llythyr ac bydd cofnod yn y llyfrau claddudigaethau am hynn.
[1.4] Haydn Roberts anfoneb am dori gwair yn y fynwent yr Eglwys a Thyn Rhyd ac hefyd llwybr troed ger Hafryn. £270.00 pasiwyd iw dalu.
[1.5] Cyngor Bwrdeisdref Sirol Conwy - Cais cynllunio dymchwel Caffi presennol ac adeiladu unedau busnes – ni chymerodd Cyng Gwennol Ellis na Maria Roberts rhan yn y drafodaeth.
[1.6] Llio Morris - cafwyd llythyr gan Llio yn datgan ei pryder am beidio a chynnal Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ngherrig y Drudion, mae n nodi y buasai n syniad i Cyngor Cymuned ddatgan ei siom ai pryder am hyn hefyd y clerc wedi ysgrifennu llythyr.
[1.7] Cyngor Sir Conwy - llythyr o ddiolch am yr gyfranniad a roddwyd i ddarparu gwananaeth llyfrgell yn Ngherrig y Drudion.
[1.8] Cynyrchiolaeth or Cyngor Cymuned ar ffwrdd Llywodarethwyr Ysgol Cerrig y Drudion enwebwyd a cytunodd Maria Roberts i gynyrchioli.
[1.9] Cyngor Sir Conwy Yr ail precept £2,500 wedi ei dderbyn
[2] WC AE & EC Edwards cafwyd anfoneb am defnydd o dractor a lodar a threlar i glirio y domen bridd yn fynwent Cerrig £420 pasiwyd iw dalu.
[2.1] Gwn Gyrru - cafwyd anfoneb gan Sian Owen i brynnu y gwn gyrru ir pentre £236.49 pasiwyd iw dalu.
[2.2] Dwr Cymru anfoneb £19.24 wedi ei dalu. DD
[2.3] Bws Ysgol cafwyd cwyn bod y bws yn trafeilio y drwy'r ffordd Tan Llan pasiwyd i gysylltu ar adran drafniadiaeth ysgol.
[2.4] Tori coed ar yr A5 ger safle y domen halen y clec i gysylltu dori y gangen sydd yn gwyro ir llwybr.
[2.5] Gully ger Bryn Aber trafodwyd a clerc i gysylltu iw hysybysu ei fod yn llenwi gyda gro yn reolaidd.
[2.6] Pont yr Alwen mae'r 'railings' angen sylw sef ei peintio, mae n debyg nad oedd cyllideb i wneud hyn gan y Cyngor Sir pasiwyd i gysylltu a Geraint Jones fel rhan oi waith i ofyn os oes ganddo ddiddorbed gofyn iddynt wneud y gwaith cymunedol.
[2.7] Y fynwent mae carreg fedd yn rhydd y clerc i wneud ymoliadau.

[2.8] Cronfa Ffyniant Gyffredin y Du Cronfa Allweddol Adfywio Cymunedol - pasiwyd i roi cais ir llwybr y fynwent i mewn ac hefyd i geisio am arian i wneud astudiaethau dichonolrwyd ir ardal.